
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# WELSH PROMISE
# ADDEWID CYMRAEG





## Childsplay, Newport

**Background**

Childsplay is a private day nursery based in Newport which offers both an After-School Club and Holiday Club with 42 places. The operational language of the setting is English, however staff use basic Welsh with the children and promote the use of the Welsh language.

In order to further demonstrate their commitment to increasing the setting's use of Welsh, Rosie the manager enrolled the setting on The Welsh Promise in July 2024 and has actively been supporting her staff and children to dive into their Welsh Language journey since. With support from Megan, Welsh Language Childcare Business Development Officer, Childsplay have worked through their tailor-made action plan ensuring the small changes were practicable for the setting to embed the Welsh Language.

Childsplay wanted to deliver a service to all its users within the community, therefore enrolling on The Welsh Promise was a stepping stone to enable them to do this. As a setting they emphasised that

*"we live in Wales, and it is important to ensure the survival and understanding of the Welsh language to keep the country alive".*

## Childsplay, Casnewydd

**Cefndir**

Meithrinfa ddydd breifat yng Nghasnewydd yw Childsplay, sy'n cynnig Clwb ar ôl Ysgol a Chlwb Gwyliau â 42 o leoedd. Saesneg yw iaith weithredu'r lleoliad, fodd bynnag mae'r staff yn defnyddio Cymraeg sylfaenol gyda'r plant ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Er mwyn dangos ymhellach eu hymrwymiad i gynyddu defnydd lleoliadau o'r Gymraeg, cofrestrodd Rosie, y rheolwr, y lleoliad, ar Yr Addewid Cymraeg ym mis Gorffennaf 2024 ac mae wedi bod yn cefnogi ei staff a'r plant i blymio i'w taith Gymraeg ers hynny. Gyda chymorth Megan, Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Cymraeg, mae Childsplay wedi gweithio trwy eu cynllun gweithredu pwrpasol gan sicrhau bod y newidiadau bach yn ymarferol er mwyn i'r lleoliad wreiddio'r Gymraeg yno.

Roedd Childsplay eisiau darparu gwasanaeth i'w holl ddefnyddwyr o fewn y gymuned, felly roedd cofrestru ar Yr Addewid Cymraeg yn garreg gamu i'w galluogi i wneud hyn. Fel lleoliad fe bwysleision nhw

*"ein bod ni'n byw yng Nghymru, ac mae'n bwysig sicrhau goroesiad a dealltwriaeth o'r Gymraeg er mwyn cadw'r wlad yn fyw".*

# Welsh promise | Addewid Cymraeg

Prior to the enrolling on The Welsh Promise, they knew very little about the Active Offer.

As part of the promise the setting were supported to review the staff's current Welsh language skills, which established the need for development. Most staff have enrolled on the Camau course and are working their way through the levels with support and encouragement from senior staff members.

*"The staff found the course helpful and positively impacted the setting. The girls are using more Welsh, especially during our circle times."*

When asked what impact The Welsh Promise and Camau has had on the setting, Rosie the manager told us;

*"The impact has been huge, the staff are using Welsh more confidently and we now supply all the registration papers in English and Welsh".*

Da iawn Childsplay on achieving the Bronze award and we look forward to working with you to continue developing your Welsh language and culture even further throughout the Silver Promise.

Cyn cofrestru ar Yr Addewid Cymraeg, ychydig iawn a wyddent am y Cynnig Rhagweithiol.

Fel rhan o'r addewid cefnogwyd y lleoliad i adolygu sgiliau Cymraeg presennol y staff, a sefydlodd yr angen am ddatblygiad. Mae'r mwyafrif o'r staff wedi ymrestru ar gwrs Camau ac yn gweithio eu ffordd drwy'r lefelau gyda chefnogaeth ac anogaeth gan uwch aelodau o staff.


*"Roedd y staff yn gweld y cwrs yn ddefnyddiol ac wedi effeithio'n gadarnhaol ar y lleoliad. Mae'r merched yn defnyddio mwy o Gymraeg, yn enwedig yn ystod ein amser cylch."*

Pan ofynnwyd pa effaith y mae'r Addewid Cymraeg a Camau wedi'i chael ar y lleoliad, dywedodd Rosie wrthym;

*"Mae'r effaith wedi bod yn enfawr, mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus ac rydyn ni nawr yn cyflenwi'r holl bapurau cofrestru yn Saesneg ac yn Gymraeg".*

Da iawn Childsplay ar ennill y wobr Efydd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i barhau i ddatblygu eich gwybodaeth o iaith a diwylliant Cymru hyd yn oed ymhellach drwy gydol yr Addewid Arian.


Happy St Davids Day!
Can you Design your own Daffodil?


St. Dwynwen's Day
Cariad
Can you Match The Colour's


HAPPy
St Dwynwen's Day


WALES

www.clybiauplantcymru.org

https://earlyyears.wales/

https://www.meithrin.cymru/

https://www.ndna.org.uk/

www.cwlwm.org.uk

https://www.pacey.org.uk/

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW